



Torri'r Cylch: Ymateb y Llywodraeth

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn ddi-dâl a hynny ar unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd perchennog yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn breakingthecycle@justice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101807029

Argraffwyd y ddogfen yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ID 2431429 06/11

Fe'i hargraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

System cyfiawnder gadarn a theg sy'n diogelu'r sawl sy'n cadw'r gyfraith ac sy'n rhoi ei haeddiant i'r sawl sy'n ei thorri yw'r peth mwyaf sylfaenol y dylai gwladwriaeth ei gynnig i'w dinasyddion. Yn *'Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwy'r yn Effeithiol'*, disgrifiwyd ein cynlluniau i ddiwygio cyfiawnder troseddol o'i gwr, gan roi terfyn ar yr aneffeithlonrwydd a'r fiwrocratiaeth sydd wedi creu system sy'n methu yn ei hamcanion pwysicaf: cosbi troseddwy'r, amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu.

Carchar yw'r gosb orau i droseddwy'r difrifol, am ei fod yn amddiffyn y cyhoedd, yn tynnu troseddwy'r o'r gymdeithas, ac yn dwyn eu rhyddid oddi arnynt. Ond mae gormod o garcharorion yn cael treulio'u hamser yn y carchar mewn segurddod gorfodol, heb iddynt wneud dim byd neu brin ddim byd adeiladol. Rhaid i garchardai ddod yn fannau gwaith caled a hyfforddiant, lle bydd disgwyl i garcharorion weithio 40 awr yr wythnos, a lle y tynnir arian o'u henillion i gefnogi grwpiau dioddefwyr. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â scandal y ffaith bod cyffuriau ar gael yn rhwydd mewn carchardai – gan fod llawer o garcharorion yn dweud mai yn y carchar y rhoesant gynnig ar heroin am y tro cyntaf. Byddwn yn cyflwyno camau diogelu llym er mwyn lleihau'r cyflenwad cyffuriau yn y carchar, gan sefydlu adeiniau digyffur er mwyn helpu carcharorion i roi'r gorau i'r arfer.

Nid yw cosbi drwy ddedfryd gymunedol wedi llwyddo i ennill ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae gormod o enghreifftiau o orchmynion cymunedol lle mai'r unig ofyniad yw 'goruchwyliaeth' gan swyddog prawf – a hynny efallai'n golygu un cyfarfod y pythefnos. Byddwn yn newid y ffordd y defnyddir dedfrydau cymunedol o'i chw'r. Bydd troseddwy'r yn gorfod gwasanaethu am fwy o oriau, gan wneud gwaith pwrpasol, di-dâl sydd o fudd i'w cymuned leol, a hynny am bedwar diwrnod o leiaf yn ystod yr wythnos waith. Byddwn yn gwneud rhagor o ddefnydd ar dagio electronig ac yn rhoi cyrffys hwy. Ni fydd dedfrydwy'r yn cael eu hannog i roi dedfryd gymunedol yn lle dedfryd o garchar – yn hytrach, bydd cosbau cymunedol llymach a gwell o gymorth i fynd i'r afael â throseddwy'r yn gynt i'w hatal rhag troseddu rhagor.

Dyma'r methiant mawr yr ydym wedi'i etifeddu – scandal cenedlaethol aildroseddu. Mae'n hanfodol cosbi mewn cymdeithas deg, ond ar ei ben ei hun, nid yw hynny'n atal pobl rhag troseddu eto. Bydd bron hanner yr holl oedolion sy'n ymadael â'r carchar yn cael euogfarn am drosedd arall o fewn blwyddyn – ac i'r rheini sy'n bwrw dedfryd fer, mae'r ffigur yn uwch eto. Mae'r un troseddwy'r yn cael eu hailgylchu dro ar ôl tro drwy'r llysoedd, drwy'r carchar a thrwy ddedfrydau cymunedol, gan greu dioddefwyr newydd a chost ychwanegol i'r gymdeithas. Mae'r cylch dieflig yn costio rhwng £7 a £10 biliwn i'r economi bob blwyddyn. Er mwyn sicrhau llai o droseddu, mae angen inni lwyddo'n well o lawer i dywys carcharorion ar y llwybr cul ar ôl iddynt frw'u dedfryd.

Mae'r dulliau y rhoddwyd cynnig arnynt yn y gorffennol wedi methu â thorri cylch troseddu ac aildroseddu. Cafwyd ton ar ôl ton o ddeddfwriaeth gan greu fframwaith dedfrydu anymarferol a llyfr statud sy'n frith o ddeddfau'n rhoi gormod o gyfarwyddyd sy'n tanseilio arbenigedd gweithwyr proffesiynol yn y system. Nid yw gwario mwy ar raglenni troseddwyd, newid y strwythur o hyd ac o hyd a chomisiynu systemau TG drud heb eu rhoi ar waith yn llawn, wedi cael fawr o ddylanwad. Oherwydd yr obsesiwn â phrosesau a thargedau, mae sylw gweithwyr proffesiynol wedi tueddu i gael ei dynnu oddi ar y nod pwysicaf un – atal troseddu yn y dyfodol a sicrhau bod llai o ddiodefryd. Mewn tair blynedd ar ddeg, gwelwyd cynnydd o oddeutu 40 y cant yn nifer y carcharorion a throseddwyd a reolir yn y gymuned. Ni allai system y carchardai ymdopi â hyn, a rhyddhawyd 80,000 o droseddwyd cyn iddynt gwblhau eu dedfryd o dan gynllun y drwydded 'diwedd cyfnod dan glo'. Nid lleihau poblogaeth y carchardai yw ein nod – ac rydym yn glir ei bod yn rhaid sicrhau lleoedd bob tro i'r rheini a ddedfrydir gan farnwyr – ond byddwn yn rheoli system sefydlog, effeithiol, yn hytrach na'i thanseilio drwy chwyddo'n anghyfrifol o hyd y nifer a gaiff eu carcharu a hynny dim ond er mwyn ei chwyddo.

Rhaid inni ddysgu yn sgil camgymeriadau'r gorffennol. Byddwn yn newid ein hagwedd sylfaenol at ailsefydlu ac ni fyddwn ond yn rhoi gwobr ac yn talu am yr hyn sy'n gweithio o ran lleihau troseddu. Bydd carchardai'n cael eu barnu ar sail eu heffeithiolrwydd wrth atal carcharorion rhag troseddu eto. Bydd ffigurau ar gael hefyd i ddangos pa fath o ddedfryd sy'n gweithio orau o ran atal troseddwyd rhag troseddu. Telir darparwyr annibynnol, boed y rheini'n gwmnïau preifat, yn elusennau ynteu'n sefydliadau heb fryd ar wneud elw, yn ôl i ba raddau y maent yn llwyddo i leihau'r gyfradd aildroseddu. Byddant yn darparu rhaglenni sy'n mynd i'r afael â gwreiddiau troseddu, mewn meysydd megis caethiwed i gyffuriau ac alcohol, salwch meddwl a phrinder sgiliau. Bydd cyn-droseddwyd sy'n cael eu hintegreiddio'n llwyddiannus yn ôl i'r gymdeithas ar ôl iddynt fwrw'u dedfryd yn dod yn drethdalwyr yn hytrach nag yn faich ar y wladwriaeth. Mae ein cynlluniau'n golygu dychwelyd at yr hyn y mae'r cyhoedd am weld y system cyfiawnder troseddol yn ei wneud: cosbi, amddiffyn a chanolbwyntio o'r newydd ar dorri cylch troseddu ac aildroseddu.

Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'n hymgyngoriad, oherwydd credaf fod eu cyfraniadau wedi ein helpu i osod trywydd mwy deallus er mwyn sicrhau cosbau mwy effeithiol a lleihau aildroseddu yng Nghymru a Lloegr.



KENNETH CLARKE

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd *'Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr mewn ffordd Effeithiol'* ar 7 Rhagfyr 2010. Roedd y ddogfen honno'n disgrifio ein cynigion i ddiwygio trefn cosbi, dedfrydu ac ailsefydlu troseddwyr.
2. Bu'r ymgynghori ar waith am ddeuddeng wythnos a chafwyd mwy na 1,200 o ymatebion. At hynny, cynhaliwyd un-ar-ddeg o ddigwyddiadau ledled y wlad. Roedd pedwar o'r rhain yn ddigwyddiadau agored a oedd yn cynnwys y rheini a chanddynt ddiddordeb mewn polisi, cyrff y sector gwirfoddol a staff rheng flaen yr heddlu, y carchardai a'r gwasanaeth prawf yn ogystal ag aelodau'r farnwriaeth. I'r digwyddiadau eraill, gwahoddwyd uwch-reolwyr sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer troseddwyr, i drafod y cynigion. Roedd y broses hon yn gyfle i ystyried ar y cyd y cyfleoedd a'r risgiau sydd ynghlwm wrth y diwygiadau arfaethedig.
3. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio cynlluniau'r Llywodraeth ar ôl yr ymgynghori.

COSBI

4. Rhaid i gosbau fod yn gadarn a rhaid iddynt fynnu ymdrech gan y troseddwr. Nid yw'n dderbyniol o gwbl i garcharor fwrw'i ddedfryd mewn segurddod nac i droseddwr anwybyddu gorchymyn llys.
5. Ni fydd gan droseddwyr ddewis ond wynebu canlyniadau eu troseddau.

Dedfrydau dan glo

6. Ein huchelgais yw troi carchardai'n fannau gwaith caled diwyd. Byddwn yn:
 - creu wythnos waith o hyd at 40 awr i garcharorion;
 - sicrhau mai gwaith yw canolbwynt trefn y diwrnod;
 - sicrhau bod gwaith yn y carchar yn gynaliadwy ac yn ei ariannu ei hun;
 - canolbwyntio addysg a hyfforddiant yn y carchar ar arfogi troseddwyr ar gyfer gwaith, gan gysylltu gweithgarwch gwaith â chymwysterau a chyfleoedd i gael swydd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a chan alluogi troseddwyr i fod yn aelodau cynhyrchiol o'r gymdeithas yn hytrach nag yn faich ar y wladwriaeth.

Gwaith sy'n golygu ymdrech a her i garcharorion

Mae Carchar EM Kirkham wedi cyflwyno wythnos waith lawn o 33 awr fan leiaf i'r holl garcharorion yn eu gweithdai, ac mae Carchar EM Maidstone, Carchar EM Leyhill a Charchar EM Manceinion a charchardai eraill hefyd yn newid pethau er mwyn ymestyn y cyfnod gweithio yn nifer o'r diwydiannau sydd ganddynt yn y carchar i wythnos waith lawn erbyn mis Medi.

Yng Ngharchar EM Altcourse, a reolir gan G4S, mae disgyblaeth wythnos waith reolaidd 38 awr wedi'i gwireddu eisoes. Mae hyn yn berthnasol i oddeutu 120 o garcharorion sy'n gwneud gwaith ailgylchu, golchi dillad a gwaith metel. Yng Ngharchar EM Forest Bank, mae Sodexo Justice Services yn bwriadu lansio Menter Gymdeithasol gan gyflogi carcharorion am 40 awr yr wythnos mewn siop argraffu broffesiynol. Yn ogystal â rhoi gwaith ystyrion a sgiliau go iawn i garcharorion, bydd y rhan fwyaf o'r elw'n mynd i gyrff sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr, a'r gweddill o gymorth i ariannu ailsefydlu carcharorion yn llwyddiannus er mwyn eu hatal rhag troseddu eto.

Rydym yn chwilio hefyd am bartneriaethau gwaith newydd ac arloesol gyda'r sector preifat. Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy ac Amaryllis wedi cyhoeddi menter newydd ar y cyd lle bydd carcharorion yn adnewyddu dodrefn swyddfa. Bwriad hyn fydd ceisio cynyddu nifer y carcharorion sy'n gweithio, arbed costau a helpu'r amgylchedd.

Bydd y cynnydd cynnar hwn yn gyfle inni weld newidiadau go iawn yn awr, ac yn wers werthfawr wrth inni geisio lledaenu'r gwaith yn ehangach drwy garchardai'r ystâd.

7. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am ein strategaeth gweithredu yn yr hydref. Bydd y strategaeth hon yn esbonio sut y bwriadwn chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu sefydliadau ym mhob sector er mwyn iddynt allu cydweithredu â charchardai i ddatblygu cyfleoedd gwaith gan ystyried hefyd sut mae osgoi amharu ar swyddi yn y gymuned leol. Rydym yn sefydlu Grŵp Cynghori Busnes er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau wedi'u gwreiddio'n gadarn ar sylfeini busnes go iawn. Byddwn hefyd yn gweithio'n glos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cysylltu ein cynigion â'r Rhaglen Gwaith fel y gall gwaith ar y tu mewn arwain at waith ar y tu allan.

Dedfrydau y tu allan i'r carchar

8. Mae angen i ddedfrydau y tu allan i'r carchar fod yn llym ac angen iddynt fynnu ymdrech gan droseddwy. Ers yn rhy hir, nid ydynt wedi cyrraedd y nod. Unig ofyniad dros 10% o orchmynion cymunedol yw gofyniad 'goruchwyllo' (mewn geiriau eraill, cyfarfod â'r swyddog prawf). Ein nod fydd gwella'r dedfrydau hyn er mwyn iddynt gosbi, rheoli a diwygio troseddwy yn well. Ni fyddwn yn annog dedfrydwy i roi dedfryd gymunedol yn lle dedfryd o garchar. Yn hytrach, byddwn yn trawsnewid gorchmynion cymunedol er mwyn creu cosbau mwy credadwy a fydd yn atal troseddwy rhag cyrraedd y pwynt lle mai cyfnod dan glo yw'r unig ddewis.

9. Dyma'r man cychwyn:

- sicrhau bod gan y llysoedd fwy o ffyrdd o gosbi a rheoli troseddwydr drwy wahardd teithio tramor a gorfodi gorchmynion cyrffw hwy a llymach;
- sefydlu panelau cydymffurfio i sicrhau bod pobl ifanc yn cydymffurfio â'u dedfrydau.

10. Byddwn hefyd yn ystyried newidiadau eraill i'r system, gan gynnwys sut y gellir defnyddio'r farchnad, a thalu yn ôl canlyniadau, er mwyn darparu rhagor o ofynion a gofynion llymach.

Meddiannu eiddo troseddwydr

O'r haf hwn ymlaen, byddwn yn treialu dull llym newydd yn swydd Gaer ac yn Norfolk.

Bydd troseddwydr sy'n gwrthod talu dirwyon dro ar ôl tro'n wynebu dau ddewis: talwch yn gyflym neu byddwn yn meddiannu'ch eiddo. Byddwn yn anfon beillïod i feddiannu eiddo megis ceir neu setiau teledu. Byddwn yn treialu'r drefn hon cyn bo hir yn swydd Gaer ac yn Norfolk cyn ystyried a ddylid ei lledaenu'n ehangach.

GWNEUD IAWN

11. Byddwn yn gorfodi troseddwydr i wneud iawn i ddiodefwydr ac i'r gymdeithas am y niwed maent wedi'i wneud - a hynny'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Troseddwydr dan glo

12. Mae ar garcharorion ddyled i ddiodefwydr ac i'r gymdeithas. Wrth inni ganolbwyntio o'r newydd ar waith fel rhan o drefn y carchar, byddwn yn creu mwy o gyfleoedd i garcharorion wneud iawn. Heddiw, rydym yn cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn caniatáu inni dynnu cyfran o'r arian a enillir gan droseddwydr oddi arnynt. Byddwn yn cyhoeddi cynlluniau yn yr hydref i ddangos sut y defnyddir yr arian hwn i wneud iawn am y niwed mae'r troseddwydr wedi'i wneud.
13. Byddwn hefyd yn rhoi Deddf Enillion Carcharorion 1996 ar waith o fis Medi 2011 ymlaen er mwyn inni allu tynnu arian oddi ar rai carcharorion pan fyddant yn gweithio o dan drwydded yn y gymuned cyn eu rhyddhau. Bwriadwn dynnu 40 y cant o'u henillion ar ôl tynnu treth ac Yswiriant Gwladol. Dylai hyn olygu bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gallu cynhyrchu tua £1 filiwn o incwm ychwanegol y flwyddyn, a bydd yr arian hwnnw'n mynd at wasanaethau cymorth i ddiodefwydr.

Troseddwyr sy'n bwrw dedfryd y tu allan i'r carchar

14. Gall cosbau ariannol fod yn gosb effeithiol sydd hefyd yn sicrhau bod troseddwr yn gwneud iawn. Byddwn yn annog rhagor o ddefnyddio ar gosbau ariannol ar eu pen eu hunain ac ochr yn ochr â dedfrydau eraill, gan ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod troseddwr yn gwneud mwy o iawn ariannol i ddioddefwyr ac i gymunedau. Byddwn yn:
- gwella'r drefn Talu yn ôl i'r Gymuned drwy ei gwneud yn fwy dwys a sicrhau ei bod yn mynnu mwy o ymdrech gan y troseddwr. Bydd diwrnod gwaith ac wythnos waith troseddwr yn hwy. Byddwn hefyd yn cyflwyno trefn gystadleuol er mwyn ffrwyno sgiliau'r sector preifat a'r sector gwirfoddol a chodi safonau gan sicrhau bod unrhyw refeniw'n dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus;
 - creu dyletswydd bendant i'r llysoedd ystyried gwneud gorchymyn iawndal ym mhob achos lle mae dioddefwr penodol wedi dioddef niwed, difrod neu golled;
 - gweithio gyda'r Cyngor Dedfrydu er mwyn annog mwy o ddefnydd ar gosbau ariannol;
 - gweithio i wella eto'r ffordd y gorfodir cosbau ariannol;
 - ymgynghori ynglŷn â strategaeth newydd ar gyfer dioddefwyr a fydd yn cynnwys cynigion i gynyddu'r Gordal i Ddioddefwyr a'i ddefnyddio'n fwy helaeth mewn ystod ehangach o achosion.

DILYNIANT

15. Cosbi yw ein hymateb cyntaf a'n hymateb pwysicaf i droseddu, ond nid yw'n ddigon i atal troseddwr rhag troseddu eto.
16. Nid yw'r cyfraddau aildroseddu presennol yn dderbyniol. Bydd bron hanner yr holl droseddwr sy'n oedolion a ryddheir o'r carchar yn cael euogfarn arall o fewn blwyddyn, a bydd un o bob pump o'r holl droseddwr yn treulio rhywfaint o amser o dan glo yn ystod y flwyddyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar neu ar ôl iddynt ddechrau ar ddedfryd y tu allan.¹
17. Ein blaenoriaethau yw cael troseddwr i roi'r gorau i gyffuriau ac alcohol am byth; mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl troseddwr; sicrhau bod troseddwr yn cael gwaith; a lleihau'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ailsefydlu. Wrth fynd i'r afael â hyn, byddwn yn ystyried y gwahanol broffil sydd gan fenywod sy'n troseddu.

¹ Aileuogfarnau oedolion: canlyniadau o garfan 2009 (Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mawrth 2011.) www.justice.gov.uk/publications/statistics-and-data/reoffending/adults.htm

Troseddwy'r dan glo

18. Mae'r ddadl dros fynd i'r afael â chyffuriau'n amlwg. Roedd cyfradd aileuogfarnau'r carcharorion hynny a oedd wedi defnyddio cyffuriau Dosbarth A a Dosbarth B neu C yn ystod y mis cyn iddynt fynd i'r carchar yn 71 y cant, o'i chymharu â 30 y cant ar gyfer y rheini nad oeddent erioed wedi cymryd cyffuriau. Byddwn yn symud at system sy'n canolbwyntio ar adfer a system nad yw'n cadw defnyddwyr heroin ar gyffuriau eraill ar bresgripsiwn megis methadon, oni fydd hynny'n gwbl angenrheidiol. Mewn pum carchar, byddwn yn treialu Adeiniau Adfer i'r sawl sy'n gaeth i Gyffuriau - gan ganolbwyntio ar sicrhau parhad yn y driniaeth a gaiff carcharorion sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac sy'n bwrw dedfryd fer wth iddynt symud o'r carchar i'r gymuned. Byddwn hefyd yn cynyddu'r camau diogelwch er mwyn lleihau'r cyflenwad cyffuriau ac alcohol i'r carchardai ac yn hyrwyddo amgylcheddau digyffur.
19. Rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod troseddwy'r yn meithrin y sgiliau a'r tueddfryd i weithio yn y carchar, ac i sicrhau swydd a'i chadw ar ôl eu rhyddhau. Byddwn yn lledaenu'r 'Campws Rhithiol' i ehangu ystod y gwasanaethau cyflogaeth a dysgu sydd ar gael yn y carchar, gan alluogi troseddwy'r sy'n dangos ymrwymiad i newid i fanteisio ar ddysgu priodol sy'n seiliedig ar TG, gwasanaethau cyflogaeth a chyfle i chwilio am swydd.

Troseddwy'r sy'n bwrw dedfryd y tu allan i'r carchar

20. Byddwn yn archwilio'r opsiynau ar gyfer llety sy'n cynnig triniaeth ddwys i'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol. Byddwn hefyd yn dal i weithio gyda'r wyth ardal leol a gyhoeddwyd eisoes i dreialu'r dull 'talu yn ôl canlyniadau' er mwyn darparu gwasanaethau adfer i'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol.
21. Rhaid inni sicrhau bod troseddwy'r sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael triniaeth yn y lleoliad mwyaf priodol a mwyaf diogel posibl. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref i dreialu a lledaenu gwasanaethau cyswllt yn nalfeydd yr heddlu ac yn y llysoedd erbyn 2014. Mae'r Adran Iechyd yn buddsoddi £3 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon mewn 54 o safleoedd i oedolion. I bobl ifanc, mae chwe chynllun peilot wedi bod ar waith yn y ddwy flynedd diwethaf. Darperir £2 filiwn arall i dalu am hyd at 30 o safleoedd, a'r nod tymor hir fydd lledaenu'r dull hwn drwy'r wlad. I'r rheini y mae eu troseddu'n gysylltiedig ag anhwylder personoliaeth difrifol, mae angen mynd ati mewn ffordd wahanol gan ganolbwyntio ar sut mae defnyddio adnoddau'n well a sut mae ei gwneud yn haws iddynt gael gafael ar driniaeth. Yn ddiweddarach eleni, cyhoeddir ymateb llawn i'r ymgynghoriad ar wahân a gynhaliwyd ynglŷn â hyn.
22. Mae cael cartref sefydlog yn hollbwysig er mwyn sefydlogi bywydau afreolus rhai troseddwy'r. Byddwn yn gweithio ar gynllun gyda'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol dan arweiniad Crisis i'w gwneud yn haws i bobl ddigartref sengl, gan gynnwys troseddwy'r, gael gafael ar gartrefi ar rent yn y sector preifat; yn gweithio gyda'r llysoedd er mwyn eu hannog i

roi llai o droseddwy'r nad oes ganddynt lety sefydlog ar remand, a defnyddio mwy ar gynlluniau Llety Mechnïaeth a Gwasanaethau Cymorth; a byddwn yn cefnogi datblygu Gweithgor y Gweinidog ar Ddigartrefedd, gan sicrhau bod y carchardai a'r gwasanaeth prawf yn chwarae eu rhan yn effeithiol.

Talu yn ôl canlyniadau

23. Byddwn yn arloesi gyda chynllun newydd - y cyntaf o'i fath yn y byd - system lle na fyddwn ond yn talu yn ôl canlyniadau, a'r canlyniadau hynny'n cael eu cyflawni gan ystod amrywiol o ddarparwyr o bob sector. Bydd yr egwyddor hon yn sail i'n holl waith ar aildroseddu. Mae'r newid hwn yn un radical. Rydym eisoes wedi rhoi cychwyn ar sawl cynllun peilot a byddwn yn lansio proses gystadleuol yn yr haf i gomisiynu rhagor o gynlluniau peilot. Ond, rydym yn glir ein bod yn awyddus adeiladu ar sail y cynlluniau peilot hyn yn ddi-oed. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn sicrhau na fyddwn yn darparu gwasanaethau ailsefydlu rhagor heb ystyried ymhle y gall y sector preifat, y sector gwirfoddol neu'r sector cymunedol eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon. Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Cystadlu ehangach ar gyfer Gwasanaethau Troseddwy'r cyn bo hir, a bydd honno'n cynnwys amserlen uchelgeisiol ar gyfer bwrw ymlaen â thalu yn ôl canlyniadau ac ar gyfer y strategaeth gystadlu ehangach.

Ar 31 Mawrth 2011, cyhoeddwyd ein penderfyniad i ddyfarnu'r contract i reoli Carchar EM Doncaster i Serco, gan gynnwys cynllun peilot 'talw yn ôl canlyniadau' pedair blynedd a fydd yn dechrau ym mis Hydref 2011. Bydd y contract hwn, y cyntaf o'i fath yn y byd, yn golygu y bydd Serco'n cael ei ddal yn gyfrifol am gadw carchar saff, safonol a diogel ac yn gyfrifol hefyd am gyfraddau aildroseddu unrhyw rai o'u troseddwy'r ar ôl eu rhyddhau. Yn ystod pob blwyddyn o'r cynllun peilot, fe allent golli 10% o werth y contract. Dim ond os llwydda Serco i leihau aildroseddu 5 pwynt canran y bydd yn cadw'r 10%. Os bydd Serco'n methu â chyrraedd y targed hwn, telir arian yn ôl i'r Llywodraeth. Os bydd yn rhagori ar y targed, telir mwy iddynt na phris y contract gwreiddiol. Bydd y peilot yn cynnwys pob troseddwr cymwys a gaiff ei ryddhau o Doncaster, gan gynnwys y rheini a gaiff eu rhyddhau ar ôl iddynt fwrw dedfryd fer. Er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau effeithiol, mae Serco wedi trefnu contract gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol, gan gynnwys Catch 22 a Turning Point.

TRYLOYWDER

Agor drws cyfiawnder

24. Rhaid inni agor drws cyfiawnder er mwyn i ddiodefny'r a'r cyhoedd ddeall yn well i ba raddau rydym yn llwyddo ac er mwyn iddynt gael mwy o gyfle i fod yn rhan o bethau.

25. Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd cynlluniau i wneud cyfiawnder troseddol lleol yn fwy hygyrch i'r gymuned ac i'w gwneud yn haws i unigolion a chymunedau gael gwybodaeth am wasanaethau lleol.² Byddwn yn:
- cyhoeddi rhagor o wybodaeth am ddedfrydu, canlyniadau cyfiawnder a gwasanaethau cyfiawnder lleol;
 - symleiddio'r gofynion sy'n dweud sut mae'n rhaid i lys esbonio dedfryd i oedolion ac i droseddwy'r ifanc;
 - datblygu dulliau i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau allu asesu effaith troseddu ar fywyd y gymuned, casglu barn pobl am flaenoriaethau'r gymuned ac wedyn, defnyddio'r wybodaeth yn rhan o'r broses cyfiawnder;
 - sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn haws am ystod o gyfleoedd i wirfoddoli ar draws y system cyfiawnder troseddol er mwyn i'r gymuned allu cymryd rhan mewn materion sy'n ymwneud â throseddu a chyfiawnder lleol;
 - sicrhau bod y gymuned yn ymwneud mwy â chyfiawnder er mwyn i bobl leol gynorthwyo i ganfod atebion i fân droseddu gan adlewyrchu pryderon a buddiannau'r gymuned. Bydd hyn yn cynnwys parhau i roi Panelau Cyfiawnder Cymdogaeth ar waith er mwyn dod â gwirfoddolwyr lleol a gweithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol ynghyd, a chan ddefnyddio dulliau adferol a gwneud iawn er mwyn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin â rhai mathau o fân droseddu ac anhrefn.

Sylweddoli'r niwed a wneir i ddiodefwrwr a gwneud iawn am hynny

26. Byddwn yn sicrhau bod gan ddiodefwrwr rôl fwy canolog yn y system cyfiawnder troseddol.
27. Dylai diodefwrwr gael cyfle i esbonio'r niwed mae trosedd wedi'i wneud er mwyn gallu teilwra dedfrydau i sicrhau bod troseddwy'r yn gwneud iawn. Nid oes cysondeb yn y ffordd y cynigir cyfle i ddiodefwrwr wneud Datganiad Personol. Dyma'r prif fecanwaith sydd ar gael i ddiodefwrwr roi gwybod i'r llys am yr effaith mae'r trosedd wedi'i chael arnynt. Rydym am sicrhau bod y cyfle hwn yn cael ei gynnig i ddiodefwrwr yn ddiwahân a byddwn yn ceisio barn ynglŷn â'r opsiynau er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd drwy gynnal ymgynghoriad ynglŷn â diodefwrwr cyn bo hir.
28. Dywed llawer o ddiodefwrwr mai'r drefn cyfiawnder adferol sy'n cynnig y ffordd orau o wneud iawn am niwed. Rydym yn cynnig y dylid defnyddio ymyriadau cyfiawnder adferol yn ystod pob un o gamau'r system cyfiawnder. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn croesawu ein pwyslais ddefnyddio'r drefn cyfiawnder adferol yn fwy helaeth, cyn belled â'i bod yn cael ei ddefnyddio'n briodol, bod safon yr ymyriadau'n ddigon da a bod diodefwrwr yn cael eu diogelu'n ddigonol.

² www.justice.gov.uk/publications/community-access-criminal-justice.htm

29. Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu fframwaith sy'n cynorthwyo ymarferwyr lleol i ddatblygu a darparu dulliau cyfiawnder adferol effeithiol yn ystod pob un o gamau'r system cyfiawnder troseddol a'r rheini wedi'u seilio ar yr arferion gorau. Byddwn hefyd yn dal i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyfiawnder adferol ac ar gyfer ei rhoi ar waith drwy:
- wella'r ffordd y caiff ei ddefnyddio wrth ymdrin â throseddau yn y gymuned fel un o'r dulliau i fynd i'r afael â mân droseddu;
 - annog ei ddefnyddio wrth ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys neu i'w hategu;
 - sicrhau bod rôl dioddefwyr yn y broses cyfiawnder adferol yn bwrw gwreiddiau'n ffurfiol ym mhob cam o'r broses;
 - gwella'r cyngor a roddir i ddedfrydwyr ynglŷn ag arferion cyfiawnder adferol cyn iddynt ddedfrydu ac ynglŷn â sut y dylid ystyried cyfiawnder adferol yn y llys, gan gynnwys defnyddio adroddiadau cyn dedfrydu a Datganiadau Personol Dioddefwyr;
 - sefydlu canllawiau a safonau gofynnol ar gyfer timau troseddwr ifanc, y gwasanaeth prawf a charchardai gyda golwg ar wneud mwy o ddefnydd a gwell defnydd ar arferion cyfiawnder adferol, a hynny cyn dedfrydu ac wedyn;
 - ceisio gwneud y gorchymyn atgyfeirio'n ffordd fwy adferol o ymdrin ag achosion troseddwr ifanc drwy roi mwy o hyfforddiant i aelodau panelau gorchymynion atgyfeirio, dileu'r cyfyngiadau presennol ar aildefnyddio'r gorchymyn a rhoi mwy o hyblygrwydd i'r llysoedd fel y gallant roi rhyddhad amodol yn hytrach na gorchymyn atgyfeirio i berson ifanc sydd yn y llys am y tro cyntaf, ac sy'n pledio'n euog.

Ymateb yn fwy effeithiol i droseddu

30. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae deddfwriaeth gymhleth a thargedau sy'n gwrthdaro â'i gilydd, megis dwyn troseddau gerbron y system cyfiawnder, wedi ystumio'r broses penderfynu. Er mwyn datblygu ymateb mwy effeithiol i droseddu, mae angen inni ddiwygio pob cam o'r system.
- **Y tu allan i'r llys:** rhaid inni sicrhau dulliau mwy effeithiol o ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys. Wrth fynd ati ar frys i ehangu'r gwahanol ddulliau o ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys, mae dryswch wedi codi ynglŷn â sut mae'r gwahanol ddulliau hyn yn cydweddu â'i gilydd; o dan ba amgylchiadau y dylid defnyddio'r naill yn hytrach na'r llall; y gwahaniaethau rhwng y system i bobl ifanc a'r system i oedolion; a'r prosesau ar gyfer gweinyddu'r gwahanol ddulliau hyn. Byddwn yn creu **fframwaith cenedlaethol clir** ar gyfer ymdrin â throseddau y tu allan i'r llys ac yn ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Hefyd, yn lle'r dull presennol o ymdrin ag achosion ieuencid y tu allan i'r llys, byddwn yn cyflwyno system o rybuddion i'r ifanc a rhybuddion amodol i'r ifanc, yn diddymu hysbysiadau cosbau i'r ifanc ar gyfer achosion anhrefn ac yn

- Cyn y treial:** bob blwyddyn, bydd miloedd o bobl yn cael eu rhoi ar remand er na chânt ddedfryd o garchar wedi hynny. Un o'r rhesymau sy'n gyfrifol am hyn yw bod remand yn cael ei ddefnyddio ar gyfer difinyddion a gyhuddir o fân droseddau, er mwyn cael gafael ar wasanaethau iechyd yn y carchar, er enghraifft. Nid yw hyn yn ffordd effeithiol o gwbl o gael gafael ar asesiad a thriniaeth ac mae'n wastraff ar arian cyhoeddus. Byddwn yn rhoi terfyn ar hyn ac ni fyddwn ond yn defnyddio lleoedd remand pan fydd angen amddiffyn y cyhoedd rhag y rheini y mae eu troseddu a'u troseddu honedig yn ddigon difrifol i warantu cyfnod dan glo. Bydd gan y llysoedd y grym o hyd i roi ar remand y troseddwyr mynych hynny sy'n anwybyddu amodau eu mechniaeth ac y gallai eu troseddu olygu bod angen eu rhoi dan glo, ac i ddefnyddio remand mewn achosion lle mae trais yn y cartref yn bosibl. Byddwn hefyd yn diwygio'r drefn remand diogel i bobl ifanc er mwyn i bob plentyn o dan 18 oed gael ei drin yn yr un ffordd at ddibenion remand, yn hytrach na bod pobl ifanc 17 oed yn cael eu trin fel oedolion. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd pob person ifanc a roddir ar remand diogel yn dod yn "blentyn sy'n derbyn gofal" gan yr awdurdod lleol. Yn ogystal â hyn, bydd awdurdodau lleol yn dod yn ariannol gyfrifol am yr holl achosion lle rhoddir pobl ifanc ar remand mewn llety diogel, er mai'r llywodraeth ganol a fydd yn dal yn gyfrifol am gomisiynu a lleoliadau. Bydd hyn yn symleiddio'r trefniadau presennol ac yn cynnig cymhelliant pwerus i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn strategaethau amgen ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.
- Dedfrydau dan glo:** Mae dedfryd oes dan glo am lofruddio'n rhan hanfodol o'r fframwaith dedfrydu. Nid oes dim cynlluniau i newid hyn. Yn yr un modd, ni fydd newid ychwaith yn y ddedfryd o garchar am gyfnod penodol a gaiff y rhan fwyaf o droseddwyr na chânt ddedfryd oes. Fodd bynnag, rydym yn ystyried sawl diwygiad pwysig:

 - creu trosedd newydd gan roi dedfryd o chwe mis o garchar fan leiaf ar gyfer oedolion, er mwyn anfon neges glir at y rheini sydd â chyllell yn eu meddiant gyda'r bwriad o fygwth a pheryglu;
 - adolygu ar frys y dedfrydau ar gyfer troseddwyr rhyw a threisgar difrifol. Yn yr ymgynghoriad, tynnwyd sylw at nifer o wendidau yn y ddedfryd o Gyfnod Amhenodol yn y Carchar er Amddiffyn y Cyhoedd (IPP). Nid yw'r ddedfryd honno erioed wedi gweithio fel yr oedd y Senedd yn bwriadu iddi weithio. Yn hytrach, mae wedi creu system ddiffygiol nad yw'r cyhoedd yn ei deall yn dda. Byddwn yn cynnal adolygiad ar frys gyda golwg ar ddisodli trefn yr IPP bresennol gyda fframwaith dedfrydau penodol llawer llymach - fframwaith y byddai'r cyhoedd yn ei ddeall yn well, ac a fyddai'n ennyn mwy o hyder. Bydd yr adolygiad hefyd yn ymwneud â

Chadw dan Glo er Amddiffyn y Cyhoedd, y ddedfryd gyfatebol i bobl ifanc;

- rhoi mwy o ryddid i'r llysoedd benderfynu ynglŷn â defnyddio dedfrydau gohiriedig er mwyn iddynt allu gohirio dedfryd dan glo am hyd at ddwy flynedd, dewis a ddylid gorfodi gofynion cymunedol neu beidio, a chael yr opsiynau ychwanegol o orfodi dirwy am doramod;
- deddfu i ddileu rhai o'r cyfyngiadau statudol wrth ddefnyddio galw yn ôl am gyfnod penodol a'r drefn ail-ryddhau gweithredol fel bod llai o ddefnyddio diangen ar adnoddau'r Bwrdd Parôl.
- **Lleihau nifer y Troseddwyr sy'n Frodorion Tramor:** dylid anfon brodorion tramor sy'n camddefnyddio ein croeso drwy droseddu oddi yma. Mae gennym gynlluniau ar waith eisoes sy'n gefn i'r amcan hwn, ac rydym yn dal i adeiladu ar sail y rhain er mwyn lleihau eto nifer y brodorion tramor sydd yn y system cyfiawnder:
 - bydd trefniadau trosglwyddo carcharorion, sy'n sicrhau bod brodorion yr Undeb Ewropeaidd a ddedfrydwyd yma'n bwrw'u dedfryd yn eu gwlad eu hunain, yn dod i rym o fis Rhagfyr 2011 ymlaen;
 - alltudio carcharorion sy'n frodorion tramor ac sy'n bwrw dedfrydau amhenodol ar ôl iddynt gwblhau'r cyfnod byrraf o'u dedfryd sy'n ofynnol;
 - rydym yn treialu system i ddargyfeirio brodorion tramor oddi wrth y drefn erlyn drwy ddefnyddio rhybuddion syml ar gyfer y rheini sydd wedi cyflawni troseddau penodol ac sydd heb ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, ar yr amod eu bod yn gadael y Deyrnas Unedig. Byddwn yn defnyddio deddfwriaeth i ymestyn hyn i rybuddion amodol.

Rydym wrthi'n adolygu'r IPP gyda golwg ar ddisodli'r drefn IPP bresennol a rhoi fframwaith dedfrydu penodol llymach o lawer yn ei le sy'n cynnwys y canlynol:

- cynyddu nifer y troseddwyr difrifol a fyddai'n cael dedfryd oes - a dedfrydau oes gorfodol i'r troseddwyr mwyaf difrifol sy'n aildroseddu;
- byddai'n llai agored i'w herio yn y llysoedd na system yr IPP;
- byddai troseddwyr rhyw a threisgar difrifol yn treulio o leiaf ddwy ran o dair o'u dedfryd yn y carchar, lle na allant beri risg i'r cyhoedd, yn hytrach na chael eu rhyddhau'n awtomatig hanner ffordd drwy eu dedfryd - ac ni fyddent byth yn cael eu rhyddhau cyn diwedd eu dedfryd oni fyddai'r Bwrdd Parôl yn fodlon bod hynny'n ddiogel.
- trefnid rhaglenni gorfodol ar gyfer troseddwyr peryglus yn ystod eu cyfnod yn y carchar, er mwyn newid eu ffyrdd a pheidio â chyflawni rhagor o droseddau ar ôl eu rhyddhau.

Byddwn hefyd yn adolygu trefniadau'r Bwrdd Parôl ar gyfer ailsefydlu'r rheini sydd wedi'u carcharu o dan y drefn IPP, er mwyn sicrhau bod gwaith go iawn yn cael ei wneud i ddiwygio troseddwr yn y carchar.

Yn sgil casgliadau ein hadolygiad, yn yr hydref, byddwn yn cyflwyno gwelliannau gan y llywodraeth i'r Mesur. Yn y cyfamser, bydd y drefn IPP yn dal ar gael i'r llysoedd fel y maent yn awr.

Fframwaith symlach

31. Dros y degawd diwethaf, rydym wedi gweld cyfraith dedfrydu'n cael ei newid fesul tamaid ynghyd â chyflwyno dulliau canolog iawn o reoli perfformiad. Er gwaethaf diwygiadau a gyflwynwyd i ddod â gwasanaethau cyhoeddus yn nes at gymunedau, mae'r system cyfiawnder yn dal i gael ei hadeiladu o gwmpas y bobl sy'n gweithio ynddi, yn hytrach nag o gwmpas y dioddefwyr neu'r cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu. Yn sgil hyn, nid oes gan y cyhoedd fawr o ffydd yn y system dedfrydu a'r system rheoli troseddwr, systemau sy'n anodd eu dehongli a'u gweinyddu.
32. Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth er mwyn cael gwared ar y rhan fwyaf o'r cymhlethdod gweithredol sydd ynghlwm wrth ryddhau troseddwr a'r penderfyniadau i'w galw yn ôl ac er mwyn symleiddio elfennau eraill o'r gyfraith dedfrydu, gan ei gwneud yn haws i'r llysoedd ac ymarferwyr ddedfrydu a rheoli troseddwr. Bydd y Mesur yn:
 - sicrhau bod pob dedfryd yn y dyfodol yn dod o dan un set o drefniadau rhyddhau, ni waeth ar ba ddyddiad y cyflawnwyd y trosedd;
 - cysoni'r darpariaethau amrywiol sydd ar gael ar gyfer rhyddhau ar hyn o bryd;
 - gwneud proses cyfrifo'r cyfnod remand yn symlach ac yn fwy effeithlon drwy ei gwneud yn broses weinyddol syml;
 - creu un set o reolau ar gyfer rhoi'r Cyrffyw Cadw yn y Cartref ar waith;
 - dileu rhai o'r cyfyngiadau statudol presennol er mwyn caniatáu mwy o ryddid proffesiynol i bobl benderfynu pa bryd y ceir ailryddhau, o dan drwydded, y carcharorion 'risg is' hynny sydd wedi'u galw yn ôl i'r carchar;
 - diddymu deddfwriaeth sydd heb ei rhoi ar waith ac nad yw'n gwneud dim mwy na chymhlethu'r fframwaith dedfrydu.

Symleiddio rheoli perfformiad

33. Yn ogystal â symleiddio'r gyfraith, rydym wedi ymrwymo i sicrhau llai o reoli perfformiad o'r brig i lawr a llai o gyfarwyddo o'r canol, drwy roi'r rhyddid angenrheidiol i weithwyr proffesiynol wneud eu gwaith:
- rydym wedi cyhoeddi Safonau Prawf Cenedlaethol newydd sy'n rhoi mwy o ryddid i wasanaethau prawf reoli troseddwy, gan ganiatáu mwy o le iddynt arloesi;
 - rydym hefyd yn diwygio trefniadau llywodraeth ganol ar gyfer asesu perfformiad Ymddiriedolaethau Prawf a Charchardai, er mwyn iddynt gael eu mesur yn ôl eu canlyniadau wrth leihau aildroseddu, yn hytrach nag yn ôl mewnbynnau a phrosesau (megis faint o droseddwy sy'n dilyn rhaglenni neu gyrsiau penodol);
 - erbyn 2012, byddwn wedi datblygu rhagor ar gontractau prawf er mwyn iddynt ganolbwyntio ar sut mae'r llys yn darparu dedfrydau effeithiol, gan leihau aildroseddu, ac er mwyn rhoi sylw i'r modelau 'talau yn ôl canlyniadau' sy'n datblygu;
 - yn y system cyfiawnder ieuencid, byddwn yn rhoi terfyn ar ddwystr monitro'r perfformiad o'r canol, gan ddatblygu rhaglen monitro sy'n seiliedig ar risg ac sy'n canolbwyntio ar dri phrif ganlyniad:
 - lleihau nifer y troseddwy sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf;
 - lleihau aildroseddu;
 - lleihau'r nifer sydd dan glo.
34. A bwrw bod y Mesur Cyrff Cyhoeddus yn mynd drwodd, byddwn yn trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i Is-adran Cyfiawnder Ieuencid newydd yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder (a fydd ar wahân i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer oedolion, ac o dan arweiniad Prif Weithredwr presennol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid). Byddwn hefyd yn sefydlu bwrdd cynghori o randdeiliaid ac arbenigwyr i gynghori ynglŷn â materion cyfiawnder ieuencid ac i herio a chraffu.
35. Seilir y dull newydd ar yr egwyddorion hyn: bydd gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn cael eu pennu a'u sbarduno'n lleol, byddant yn sicrhau'r gwerth gorau am arian, byddant yn atebol i'r cyhoedd drwy Weinidog a byddant yn ysgafnach eu cyffyrddiad. Rydym am dargedu'r Timau Troseddwy Ifanc hynny sy'n tanberfformio a rhyddhau'r timau sy'n gwneud orau gan roi mwy o gyfle iddynt arloesi.